# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017

Amser: 08.30 - 08.38

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Mae'r datganiadau ar y Gwerthusiad Annibynnol o'r Model Ymateb Clinigol ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans Brys ac Adolygiad Addysg ac Argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi'u cyfnewid.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn gwneud Datganiad ar Ddyfodol Gwasanaethau Bysiau Lleol (45 munud).

Bydd Arweinydd y Tŷ yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog, sydd ar ymweliad â'r Unol Daleithiau. Bydd Arweinyddion y Gwrthbleidiau yn gofyn cwestiynau heb rybudd, yn unol â'r drefn arferol.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017 -**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Pedolwyr (Cofrestru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Pedolwyr (Cofrestru).

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at ddibenion gwaith craffu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 23 Mawrth 2017 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 28 Mawrth 2017.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 23 - Deisebau Cyhoeddus

Trafododd y Rheolwyr Busnes adroddiad drafft ar y newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 23 er mwyn newid y drefn bresennol ar gyfer Deisebau Cyhoeddus.

Gwnaeth y Rheolwyr Busnes gytuno ar yr adroddiad a chytuno i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod ar 8 Mawrth 2017.

## Unrhyw fater arall

Rhoddodd Arweinydd y Tŷ y wybodaeth ddiweddaraf am Fil yr Economi Ddigidol.

Anogodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes i drafod ei chynigion ynghylch Cwestiynau Amserol ymysg ei gilydd oddi allan i weithgarwch y Pwyllgor, gyda'r bwriad o ganfod tir cyffredin cyn trafod y mater eto mewn cyfarfod Pwyllgor.